Gwasanaeth Gwirfoddol
BIP Caerdydd a'r Fro

Prehab2Rehab

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Cardiff and Vale University Health Board

# GWIRFODDOLWR HYRWYDDWR DREAMING

Llawfeddygol

## Lleoliad

*Ysbyty Athrofaol Cymru*
*Posibilrwydd o leoliadau anghysbell neu gymunedol*

## Yn adrodd i

*Arweinydd Gwasanaeth a Rheolwr Ward*

## Yn atebol i

*Rheolwr Gwasanaethau Gwirfoddol*

## Ymrwymiad Amser

*o leiaf 4 awr yr wythnos am o leiaf 6 mis*

## Gwiriadau Gofynnol

*DBS (Gwiriad Cofnodion Troseddol)*
*Gwiriad Iechyd Galwedigaethol*
*Dau Eirda*

## Treuliau

*Caiff treuliau teithio i/o leoliadau ar ddiwrnod gwirfoddoli eu had-dalu*

## GOFYNION PERSONOL

- Meddu ar sgiliau gwrando rhagorol a bod yn anfeirniadol.
- Bod yn hyderus wrth gyfathrebu â defnyddwyr gwasanaeth, ymwelwyr, staff ac aelodau o'r cyhoedd.
- Bod yn frwdfrydig am nodau a gwaith Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.
- Dangos lefelau o empathi a dealltwriaeth bob amser.
- Edrych yn drwsiadus, yn smart a gwisgo gwisg a bathodyn adnabod Gwirfoddolwr Bwrdd Iechyd y Brifysgol bob amser.
- Cydnabod pryd i atgyfeirio materion a chwestiynau at staff Bwrdd Iechyd y Brifysgol.

## RHAGSEFYDLU I ADSEFYDLU A DREAMING

Mae BIPCAF yn hyrwyddo Adferiad Gwell ar ôl Llawdriniaeth (ERAS). Mae hyn yn golygu ein bod yn anelu at roi profiad cadarnhaol i'n cleifion, lleihau cymhlethdodau yn dilyn llawdriniaeth, a'ch cefnogi i fynd adref a dychwelyd i'ch gweithgareddau arferol cyn gynted â phosibl. Ar gyfer y rhan fwyaf o lawdriniaethau, ein nod yw eich bod yn Yfed, yn Bwyta ac yn Symud eto o fewn 24 awr o gael y llawdriniaeth, a elwir yn DrEaMing (Drinking, Eating and Mobilising). Mae cleifion sy'n gwneud hyn yn aml yn aros yn yr ysbyty am gyfnodau byrrach ac yn cael llai o gymhlethdodau.

Bydd gwirfoddolwyr yn hyrwyddo nodau DrEaMing; cefnogi ac annog cleifion i Yfed, Bwyta a Symud (Drink, Eat and Mobilise) ar y ward ar ôl llawdriniaeth, gan fod yn wyneb cyfeillgar ac yn gwmni i'r cleifion ar yr un pryd.

Prif dasgau:

- Cadw at werthoedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac ethos ERAS
- Cyfeillio cleifion
- Hyrwyddo menter DrEaM; annog cleifion i Fwyta, Yfed a Symud (Drink, Eat and Mobilise) ar y ward ar ôl llawdriniaeth
- Helpu cleifion i gwblhau eu dyddiadur
- Cynnal arolygon adborth gyda chleifion
- Rhoi adborth i staff ar gynnydd

## HYFFORDDIANT A CHYMORTH

Bydd angen i wirfoddolwyr ymgymryd â chynllun Hyfforddi a Sefydlu Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn ogystal. Caiff anghenion hyfforddi eu nodi drwy'r broses oruchwylio a'u diwallu drwy Raglenni Hyfforddi Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

## MANTEISION I'R GWIRFODDOLWR

Mae'r rôl hon yn cynnig:

- Profiad o weithio mewn tîm.
- Boddhad o gynorthwyo eraill a darparu gwasanaeth amhrisiadwy i'r Bwrdd Iechyd a'r gymuned
- Cyfle i ddefnyddio eich profiad eich hun o lawdriniaeth i helpu eraill
- Cyfle i ddatblygu sgiliau a phrofiad personol
- Cyfle i gwrdd â phobl newydd